OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1905 (Cy.232)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("y Prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch yr arfer gan asiantaethau mabwysiadu (sef, awdurdodau lleol a chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig) o'u swyddogaethau o ran mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Deuant i rym ar 1 Medi 2012.

Mae'r Prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu, wrth ystyried mabwysiadu ar gyfer plentyn, gyfeirio'r achos at banel mabwysiadu a fydd wedyn yn gorfod gwneud argymhelliad i'r asiantaeth ynghylch a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

Mae Adran 22(1) a (2) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, pan fo'n penderfynu y dylai plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu, a bod y meini prawf a nodwyd yn y naill ddarpariaeth neu'r llall wedi eu bodloni, wneud cais i'r llys am orchymyn lleoliad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn newid y broses mewn achosion lle y mae'r awdurdod lleol, fel yr asiantaeth fabwysiadu, yn ystyried a ddylai plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu o dan amgylchiadau lle, os ydynt yn penderfynu y dylai plentyn gael ei leoli felly, y mae'r penderfyniad hwnnw yn peri cychwyn y ddyletswydd o dan adran 22(1) neu adran 22(2) i wneud cais am orchymyn lleoliad. Yn yr achosion hynny mae'r asiantaeth fabwysiadu bellach wedi ei hatal rhag cyfeirio'r achos at y panel mabwysiadu cyn gwneud ei phenderfyniad.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 1905 (W.232)

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Adoption Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005 ("the Principal Regulations"), which make provision about the exercise by adoption agencies (that is, local authorities and registered adoption societies) of their functions in relation to adoption under the Adoption and Children Act 2002. They come into force on 1 September 2012.

The Principal Regulations require that, when an adoption agency is considering adoption for a child, the agency must refer the case to an adoption panel, which must then make a recommendation to the agency as to whether the child should be placed for adoption.

Section 22(1) and (2) of the Adoption and Children Act 2002 provide that, where a local authority decides that a child should be placed for adoption, and the criteria set out in either of those provisions are met, the local authority must then apply to the court for a placement order.

These Regulations change the process in cases where the local authority, as the adoption agency, is considering whether the child ought to be placed for adoption in circumstances where, if they decide that the child should be so placed, the decision triggers the duty under s22(1) or s22(2) to apply for a placement order. In those cases the adoption agency is now prohibited from referring the case to the adoption panel before making its decision.

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005 yn gwneud darpariaeth o ran Lloegr ynghylch arfer swyddogaethau asiantaethau mabwysiadu mewn perthynas â mabwysiadu. Gwneir diwygiadau sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hynny a byddant yn effeithiol o 1 Medi 2012 ymlaen. Bydd y diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Mabwysiadau ag iddynt Elfen Dramor 2005 yn dod i rym hefyd ar y dyddiad hwn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu rheoliad 9 o Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007. Ac eithrio rheoliad 9(1)(b) a 9(1)(c), mae rheoliad 9 yn gosod yr un dyletswyddau ar awdurdodau lleol ag a osodwyd arnynt fel asiantaethau mabwysiadu yn y Prif Reoliadau. I'r graddau nad yw'r gofynion yn rheoliad 9(1)(b) (ynghylch polisïau ysgrifenedig ar gyfer paneli mabwysiadu) eisoes wedi eu hadlewyrchu yn rheoliad 7 o'r Prif Reoliadau, mae rheoliad 7 wedi ei ddiwygio'n unol â hynny. Mae'r ddyletswydd a ddisgrifir yn rheoliad 9(1)(c) (cyngor mewn achosion ag iddynt elfen dramor) wedi ei gosod ar asiantaethau mabwysiadu drwy fewnosod rheoliad 8A yn y Prif Reoliadau.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir y byddant yn effeithio ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

The Adoption Agencies Regulations 2005 make provision in relation to England about the exercise of adoption agencies' functions in relation to adoption. Corresponding amendments will be made to those Regulations with effect from 1 September 2012. Consequential amendments to the Adoption with a Foreign Element Regulations 2005 will also come into force on this date.

These Regulations also revoke regulation 9 of the Local Authority Adoption Services (Wales) Regulations 2007. With the exception of regulation 9(1)(b) and 9(1)(c), regulation 9 imposes the same duties on local authorities as are imposed on them as adoption agencies in the Principal Regulations. To the extent that requirements in regulation 9(1)(b) (regarding written policies for adoption panels) are not already reflected in regulation 7 of the Principal Regulations, regulation 7 is amended accordingly. The duty described in regulation 9(1)(c) (advice in cases with a foreign element) is imposed on adoption agencies by the insertion of regulation 8A into the Principal Regulations.

An impact assessment has not been prepared for these Regulations because no impact on the private, voluntary or public sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1905 (Cy.232)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Gorffennaf 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *19 Gorffennaf 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8), 142(4) a (5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**)(**2**) yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Medi 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**3**).

**Diwygio'r Prif Reoliadau**

**2**. Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3**. Yn rheoliad 2, yn y man priodol, mewnosoder —

(**1**) 2002 p.38. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 144(1).

(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Weinidogion Cymru o dan adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2005 / 1313 (Cy. 167).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 1905 (W.232)

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Adoption Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *18 July 2012* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *19 July 2012* |
| *Coming into force* | *1 September 2012* |

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred by sections 9(1)(a), 140(7) and (8), 142(4) and (5) of the Adoption and Children Act 2002(**1**)(**2**) make the following regulations:

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Adoption Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2012.

(2) These Regulations come into force on 1 September 2012.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(4) In these Regulations "the Principal Regulations" ("*y Prif Reoliadau*") means the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005(**3**).

**Amendment of the Principal Regulations**

**2**. The Principal Regulations are amended as follows.

**3**. In regulation 2 in the appropriate place insert—

(**1**) 2002 c.38. For the definition of "regulations" *see* section 144(1).

(**2**) The power conferred on the National Assembly for Wales to make regulations under the Adoption and Children Act 2002 was transferred to the Welsh Ministers under section 162(1) and paragraph 30 of Schedule 11 of the Government of Wales Act 2006.

(**3**) S.I. 2005 / 1313 (W.167).

"mae i "gorchymyn gofal" yr ystyr a roddir i "care order" yn adran 105(1) o Ddeddf 1989(**1**);".

**4**. Yn rheoliad 7 —

(a) cyn "Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu", mewnosoder "(1)";

(b) ar ôl "o ran mabwysiadu" mewnosoder "er mwyn sicrhau bod y panel yn cael ei drefnu'n effeithiol ac yn gweithredu'n effeithlon.";

(c) hepgorer "a rhaid i'r asiantaeth adolygu'r cyfarwyddiadau hynny yn gyson a, phan fydd yn briodol, eu diwygio."; a

(d) mewnosoder fel is-baragraff newydd "(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu adolygu'r cyfarwyddiadau yn rheoliad 7(1) yn gyson a'u diwygio pan fo hynny'n briodol.".

**5**. Mewnosoder ar ôl rheoliad 8 —

"**8A**. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sicrhau bod y paneli mabwysiadu'n cael eu cynghori'n gywir gan berson sydd wedi ymgymhwyso'n briodol mewn perthynas â mabwysiadau ag iddynt elfen dramor os oes achos o'r fath yn cael ei ystyried.".

**6**. Yn rheoliad 17 —

(a) yn y pennawd, hepgorer "ar gyfer y panel mabwysiadu",

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mewn achos—

(a) lle y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol ac yn ystyried a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, a

(b) lle y mae naill ai paragraff (2A) neu (2B) yn gymwys,

ni chaiff yr asiantaeth fabwysiadu gyfeirio'r achos at y panel mabwysiadu.

(2A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan fo'r plentyn wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gan yr asiantaeth fabwysiadu neu'n cael llety gan yr awdurdod lleol;

(b) pan na fo unrhyw asiantaeth fabwysiadu wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, ac

(c) pan na fo gan y plentyn riant na gwarcheidwad, neu fod yr asiantaeth yn ystyried bod yr amodau yn adran 31(2) o Ddeddf 1989 wedi eu bodloni o ran y plentyn.

(2B) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan fo cais wedi ei wneud, a heb ei benderfynu, y gellid gwneud gorchymyn gofal yn ei gylch o ran y plentyn, neu

(**1**) 1989 p. 41.

""care order" ("*gorchymyn gofal*") has the meaning given in section 105(1) of the 1989 Act(**1**);".

**4**. In regulation 7 —

(a) before "The adoption agency must", insert "(1)";

(b) after "in relation to adoption" insert "to ensure that the panel is organised effectively and operates efficiently.";

(c) omit "and such instructions must be kept under review and, where appropriate, revised by the agency."; and

(d) insert as a new sub-paragraph "(2) The adoption agency must keep the instructions in regulation 7(1) under review and revise them where appropriate.".

**5**. Insert following regulation 8—

"**8A**. The adoption agency must ensure that adoption panels are properly advised by an appropriately qualified person in relation to adoptions with a foreign element if such a case is being considered.".

**6**. In regulation 17—

(a) in the heading, omit "for the adoption panel",

(b) for paragraph (2) substitute—

"(2) In a case where—

(a) the adoption agency is a local authority and is considering whether the child ought to be placed for adoption, and

(b) either paragraph (2A) or (2B) applies,

the adoption agency may not refer the case to the adoption panel.

(2A) This paragraph applies when—

(a) the child is placed for adoption by the adoption agency or is being provided with accommodation by the local authority;

(b) no adoption agency is authorised to place the child for adoption, and

(c) the child has no parent or guardian, or the agency consider that the conditions in section 31(2) of the 1989 Act are met in relation to the child.

(2B) This paragraph applies where—

(a) an application has been made, and has not been disposed of, on which a care order might be made in respect of the child, or

(**1**) 1989 c.41.

(b) pan fo'r plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal ac na fo'r asiantaeth fabwysiadu wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2C) Mewn achos nad yw'n dod o dan baragraff (2), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon yr wybodaeth a'r adroddiadau y cyfeirir atynt yn (2D) at y panel mabwysiadu.

(2D) At ddibenion paragraff (2C) a rheoliad 19(1)(A) yr wybodaeth a'r adroddiadau yw —

(i) yr adroddiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn rheoliad 17(1),

(ii) yr adroddiad ysgrifenedig ar gyflwr iechyd y plentyn y cyfeirir ato yn rheoliad 15(2)(b), oni bai bod yr asiantaeth fabwysiadu wedi derbyn cyngor gan y cynghorydd meddygol yn nodi nad oes angen adroddiad o'r fath, a

(iii) yr wybodaeth am iechyd rhieni naturiol y plentyn.".

**7**. Yn rheoliad 19 —

(a) ym mharagraff (1), ar y dechrau mewnosoder "Mewn unrhyw achos sy'n dod o dan reoliad 17(2C)", a

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder —

"(1A) Mewn unrhyw achos sy'n dod o dan reoliad 17(2) rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried yr wybodaeth a'r adroddiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 17(2D), ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylai'r plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu".

**Dirymu**

**8**. Mae rheoliad 9 o Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007 wedi ei ddirymu(**1**).

**Darpariaeth drosiannol**

**9**.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys —

(a) pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi cyfeirio achos at y panel mabwysiadu cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, a

(b) pan fo'r achos yn dod o fewn rheoliad 17(2) o'r Prif Reoliadau.

(2) Mewn achos lle y mae'r wybodaeth a'r adroddiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 17(2D) o'r Prif Reoliadau wedi eu hanfon at y panel mabwysiadu ond bod y panel mabwysiadu heb gyfarfod i ystyried yr achos cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu dynnu'r wybodaeth a'r

(**1**) O.S. 2007/1086 (Cy.115).

(b) the child is subject to a care order and the adoption agency are not authorised to place the child for adoption.

(2C) In a case not falling within paragraph (2), the adoption agency must send the information and reports referred to in (2D) to the adoption panel.

(2D) For the purposes of paragraph (2C) and regulation 19(1)(A) the information and reports are—

(i) the written report referred to in regulation 17(1),

(ii) the written report on the state of the child's health referred to in regulation 15(2)(b), unless the adoption agency has received advice from the medical adviser that such a report is unnecessary, and

(iii) the information relating to the health of the child's natural parents. ".

**7**. In regulation 19 —

(a) in paragraph (1) at the start insert "In any case falling within regulation 17(2C)", and

(b) after paragraph (1) insert —

"(1A) In any case falling within regulation 17(2) the adoption agency must take into account the information and reports referred to in regulation 17(2D), and any other relevant information, in coming to a decision about whether the child ought to be placed for adoption".

**Revocation**

**8**. Regulation 9 of the Local Authority Adoption Service (Wales) Regulations 2007 is revoked(**1**).

**Transitional provision**

**9**.—(1) This regulation applies where —

(a) an adoption agency have referred a case to the adoption panel prior to the coming into force of these Regulations, and

(b) the case falls within regulation 17(2) of the Principal Regulations.

(2) In a case where the information and reports referred to in regulation 17(2D) of the Principal Regulations were sent to the adoption panel but the adoption panel has not met to consider the case prior to the coming into force of these Regulations, the adoption agency must withdraw the information and

(**1**) S.I. 2007/1086 (W.115).

adroddiadau yn ôl oddi wrth y panel a mynd ati i wneud penderfyniad yn unol â rheoliad 19(1A) o'r Prif Reoliadau.

(3) Mewn achos lle y mae'r wybodaeth a'r adroddiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 17(2D) o'r Prif Reoliadau wedi eu hanfon at y panel mabwysiadu a bod y panel wedi cyfarfod i ystyried yr achos cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, a'i fod —

(a) wedi penderfynu pa argymhelliad i'w wneud ond heb gyfleu'r argymhelliad hwnnw i'r asiantaeth fabwysiadu, neu

(b) yn aros i gael rhagor o wybodaeth oddi wrth yr asiantaeth fabwysiadu yn unol â rheoliad 18(2)(b) o'r Prif Reoliadau, neu gyngor cyfreithiol yn unol â rheoliad 18(2)(c) o'r Prif Reoliadau,

rhaid i'r panel mabwysiadu fynd ati i wneud ei argymhelliad yn unol â rheoliad 18 o'r Prif Reoliadau, a rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried yr argymhelliad hwnnw yn unol â rheoliad 19(1) o'r Prif Reoliadau, fel pe na bai'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

reports from the panel and proceed to make a decision in accordance with regulation 19(1A) of the Principal Regulations.

(3) In a case where the information and reports referred to in regulation 17(2D) of the Principal Regulations were sent to the adoption panel and the panel met to consider the case prior to the coming into force of these Regulations, and —

(a) has decided what recommendation to make but has not communicated that recommendation to the adoption agency, or

(b) is awaiting further information from the adoption agency pursuant to regulation 18(2)(b) of the Principal Regulations, or legal advice pursuant to regulation 18(2)(c) of the Principal Regulations,

the adoption panel must proceed to make its recommendation pursuant to regulation 18 of the Principal Regulations, and the adoption agency must take that recommendation into account pursuant to regulation 19(1) of the Principal Regulations, as if these Regulations had not been made.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Children and Social Services under the authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

18 Gorffennaf 2012

18 July 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2012 Rhif 1905 (Cy.232)

## PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2012 No. 1905 (W.232)

## CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Adoption Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2012

£5.75

W1375/08/12 ON